PWYLLGOR: **Pwyllgor Pensiynau**

DYDDIAD: **29 Medi 2017**

TEITL: ***Markets in Financial Instruments Directive II (MiFID II)***

DIBEN**:** **Er mwyn i'r pwyllgor ethol am statws cleient proffesiynol a cymderadwyo cais gyda'r holl sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau gellir parhau i weithredu strategaeth buddsoddi effeithiol**

AWDUR: **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid**

---

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dan y Ddeddf gyfredol yn y DU, mae awdurdodau lleol yn cael eu categoreiddio yn awtomatig fel cleientiaid 'proffesiynol *per se'* o ran busnesau nad ydynt o fewn sgôp MiFID ac maent yn cael eu categoreiddio fel cleientiaid 'proffesiynol *per se'* o ran busnes o fewn sgôp MiFID os ydynt yn bodloni prawf *Large Undertakings* MiFID. Gall awdurdodau lleol nad ydynt yn bodloni'r prawf *Large Undertakings* ddewis symud i fyny i statws cleient proffesiynol detholus os ydynt yn bodloni 'meini prawf symud i fyny' penodol.

**1.2** Ar ôl cyflwyniad y *Markets in Financial Instrument Directive 2014/65* ("MiFID II") o 3 Ionawr 2018, ni fydd modd i gwmnïau gategoreiddio awdurdod cyhoeddus lleol neu fwrdeistref nad ydyw (yn y naill achos) yn rheoli dyled gyhoeddus ("awdurdod lleol") fel 'cleient proffesiynol *per se*' neu wrthbarti cymwys detholus (ECP) ar gyfer busnesau o fewn sgôp MiFID neu rai sydd ddim o fewn sgôp MiFID. Yn hytrach, rhaid dosbarthu pob awdurdod lleol fel "cleientiaid manwerthu" oni bai bod cwmnïau yn eu symud i fyny i statws 'cleient proffesiynol detholus'.

**1.3** Yn ogystal, mae'r FCA wedi defnyddio ei ddisgresiwn i fabwysiadu meini prawf symud i fyny euraid er dibenion y meini prawf symud i fyny meintiol, sydd angen i gleientiaid awdurdod lleol eu bodloni er mwyn i gwmnïau eu hailddosbarthu fel cleient proffesiynol detholus.

## 2. Dethol ar gyfer statws cleient proffesiynol

**2.1** Mae MiFID II yn caniatáu i gleientiaid manwerthu sy'n bodloni amodau penodol ethol i gael eu trin fel cleientiaid proffesiynol ('symud i fyny'). Mae'n rhaid i'r cleient fodloni dau brawf wrth gael ei asesu gan y sefydliad ariannol: y prawf meintiol a'r prawf ansoddol.

**2.2** Mae Bwrdd Cynghori'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (SAB) a'r LGA, ynghyd â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) a'r Investment Association (IA) wedi lobïo'r FCA yn llwyddiannus er mwyn gwneud y prawf yn fwy priodol i sefyllfa unigryw awdurdodau lleol.

**2.3** Mae'r profion newydd yn cydnabod statws awdurdodau gweinyddu CPLlL fel rhywbeth sy'n gwneud iddynt 'basio' y prawf meintiol, tra bod modd gwneud y prawf ansoddol ar yr awdurdod ar y cyd, yn hytrach nag fel unigolyn. Ceir crynodeb o ddatganiad polisi'r FCA, a dyfyniadau ohono, sy'n nodi'r profion newydd hyn yn **ATODIAD 1**

**2.4** Rhaid i'r detholiad i statws proffesiynol gael ei gwblhau â phob sefydliad ariannol cyn i'r statws newid ar 3 Ionawr 2018. Os na fydd awdurdodau lleol yn llwyddo i wneud hynny, gallai arwain at y sefydliad ariannol yn gorfod cymryd 'camau priodol' a gallai hyn gynnwys terfynu'r berthynas a hynny ar risg ariannol sylweddol i'r awdurdod.

**2.5** Mae'r SAB a'r LGA wedi gweithio â chyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant, gan gynnwys yr IA, y British Venture Capital Association (BVCA) ac eraill i ddatblygu proses symud i fyny safonol gyda thempledi llythyrau a gwybodaeth. Dylai'r broses hon arwain at ddefnyddio dull cyson o asesu ac atal awdurdodau rhag gorfod cyflwyno amrywiaeth o wybodaeth mewn gwahanol ffurfiau.

**2.6** Gweler siart llif o'r broses yn **ATODIAD 2** ac mae templedi'r llythyr a'r wybodaeth wedi'u hatodi yn **ATODIADAU 3 a 4.**

**2.7** Gellir gwneud ceisiadau o ran yr holl wasanaethau a gynigir gan y sefydliad (hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd), neu wasanaeth penodol yn unig. Efallai y bydd awdurdod lleol yn dymuno gwneud yr olaf pan fo'r sefydliad yn cynnig amrediad eang o offerynnau cymhleth nad ydyw'r awdurdod yn eu defnyddio ar hyn o bryd a ble nad oes bwriad i ddefnyddio'r sefydliad eto unwaith y bydd y berthynas gyfredol wedi dod i ben, er enghraifft, os cyflawnir yr ymarferiad caffael nesaf drwy bwl y CPLlL. Argymhellir y dylai swyddogion benderfynu ar y sail fwyaf priodol ar gyfer y cais, naill ai o ran gwasanaeth llawn neu wasanaeth sengl.

**2.8** Ni fydd gofyn i awdurdodau adnewyddu'r detholiad yn rheolaidd, ond bydd angen iddynt adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd yn y broses symud i fyny a hysbysu pob sefydliad ynghylch unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a allai effeithio ar eu statws, er enghraifft, os bydd aelodaeth y pwyllgor yn newid yn sylweddol gan arwain at golli profiad, neu os bydd y berthynas gydag ymgynghorydd buddsoddi'r awdurdod yn cael ei therfynu.

## 3. PŴL BUDDSODDI PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

**3.1** Bydd pŵl CPLlL yn fuddsoddwyr proffesiynol eu hunain yn barod felly ni fydd angen iddynt symud i fyny gyda'r sefydliadau allanol maent yn eu dewis. Fodd bynnag, bydd angen i awdurdodau lleol symud i fyny gyda'u pŵl CPLlL er mwyn cael mynediad at yr amrediad llawn o wasanaethau ac is-gronfeydd sydd ar gael.

**3.2** Mewn rhai amgylchiadau, yn benodol pan fo'r pŵl yn cynnig mynediad i strwythurau'r gronfa megis yr ACS yn unig, gallai'r pŵl ddefnyddio'r darpariaethau 'harbwr diogel' sy'n deillio o awdurdodau lleol yn parhau i gael

eu henwi fel buddsoddwyr proffesiynol yn y *Financial Promotion Order* (yr "FPO") neu yn y *Financial Services and Markets Act 2000 (Promotion of Collective Investment Schemes) (Exemptions) Order* (y "PCISO"). Byddai'r darpariaethau hyn yn galluogi hyrwyddo a gwerthiant posib yr unedau mewn strwythurau cronfa i awdurdodau lleol fel buddsoddwyr manwerthu. Byddai angen i bob sefydliad ariannol mae'r awdurdod yn eu defnyddio y tu allan i'r pŵl, boed yn gyfredol neu newydd, ei ddethol i statws proffesiynol, ynghyd ag adolygu pob detholiad yn barhaus. Os bydd pob pryniant newydd yn cael ei wneud drwy strwythurau cronfa yn y pŵl yna ni fydd angen unrhyw etholiadau newydd, dim ond adolygiad parhaus o'r detholiadau a wnaed gyda'r pŵl ac unrhyw sefydliadau allanol a etifeddwyd, a byddai'r nifer ohonynt yn lleihau wrth i asedau ddod i ben a bod unrhyw arian parod yn cael ei drosglwyddo.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1** Argymhellir bod y Pwyllgor Pensiynau:

i) **Yn nodi'r effaith bosib ar y strategaeth fuddsoddi o ddod yn gleient manwerthu o 3 Ionawr 2018 ymlaen.**

ii) **Yn cymeradwyo bwrw ati yn syth i wneud cais am statws cleient proffesiynol detholus gyda'r holl sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau y gall barhau i weithredu strategaeth fuddsoddi effeithiol.**

iii) **Wrth ymgeisio am statws cleient proffesiynol, bod y pwyllgor yn cydnabod ac yn cymeradwyo ei fod yn ildio'r gwarchodaethau sydd ar gael i gleientiaid manwerthu.**

iv) **Yn dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y caniatâd perthnasol er dibenion cwblhau'r ceisiadau a phenderfynu ar y seiliau priodol ar gyfer y cais hwnnw.**